Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

## Canllawiau i ganolwyr meddygol amlosgfeydd

**Mawrth 2022**

# Cynnwys

**Crynodeb** 3

**Cyflwyniad** 5

Swyddogaethau 5

**Ffurflenni Amlosgi – Cyffredinol** 7

Y rheini sy'n gallu llofnodi ffurflen Amlosgi 4 7

Deintyddion 8

**Cwblhau ffurflenni Amlosgi 1 ac Amlosgi 4** 9

Cyffredinol 9

**Ffurflen Amlosgi 1: Cais am amlosgi: yr hawl i gael archwiliad (wedi disodli ffurflen Amlosgi 1 a gyhoeddwyd yn 2009)** 10

**Ffurflen Amlosgi 2: Cais i waredu rhannau o gorff (wedi disodli ffurflen Amlosgi 2 a gyhoeddwyd yn 2009)** 11

**Ffurflen Amlosgi 3: Cais i amlosgi gweddillion baban marw-anedig (wedi disodli ffurflen Amlosgi 3 a gyhoeddwyd yn 2009)** 12

**Ffurflen Amlosgi 4: Tystysgrif Feddygol (wedi disodli ffurflen B)** 13

Cwestiwn 5: "Ymarferydd meddygol arferol" 13

Cwestiwn 6: "Nodwch am ba hyd y buoch yn gofalu am yr ymadawedig yn ystod ei waeledd olaf?" 13

Cwestiwn 7: "Nodwch nifer y dyddiau a'r oriau cyn marwolaethyr ymadawedig pryd i bu i chi eu gweld yn fyw ddiwethaf?" 13

Cwestiwn 8: "Nodwch y dyddiad a'r amser pryd y bu i chi weld corff yr ymadawedig a'r archwiliad a wnaethoch ar y corff" 14

Cwestiwn 9: Disgrifiad o symptomau a chyflyrau eraill 14

Cwestiwn 11: Achos y farwolaeth 14

Cwestiwn 12 a 13: Llawdriniaethau 14

Cwestiynau 14, 15 ac 16: Y rheini oedd yn nyrsio yr ymadawedig neu a oedd yn bresennol adeg y farwolaeth 15

Cwestiynau 17, 18 ac 19: Cefndir ac amgylchiadau 15

Cwestiynau 20 a 21: Cyfeirio at grwner/swyddfa’r crwner 15

Cwestiwn 22: Cofrestru marwolaeth 15

Cwestiwn 23: Tynnu mewnblaniadau 15

Rhan 3: Datganiad gwirionedd 16

**Ffurflen Amlosgi 6: Tystysgrif crwner (wedi disodli ffurflen E) 16**

**Ffurflen Amlosgi 7: Archwiliad anatomegol (wedi disodli ffurflen H) 17**

**Ffurflen Amlosgi 8: Tystysgrif yn rhyddhau rhannau o’r corff ar gyfer amlosgi (wedi disodli ffurflen DD) 17**

**Ffurflen Amlosgi 9: Tystysgrif genedigaeth farw 18**

**Ffurflenni Amlosgi 10 (wedi disodli ffurflen F), Amlosgi 12 (wedi disodli ffurflen FF) ac Amlosgi 13: Awdurdod canolwr meddygol i amlosgi 18**

**Ffurflen Amlosgi 11: Tystysgrif ar ôl archwiliad post-mortem (wedi disodli ffurflen D) 20**

**Materion eraill 21**

Achosion marwolaeth – COVID-19 21

Achosion marwolaeth – henaint 21

Marwolaethau dramor 21

Marw-enedigaethau y tu allan i Gymru a Lloegr 22

Gweddillion anhysbys 22

Amlosgi gweddillion ffetysau anhyfyw 23

**Ffurflenni wedi’u llenwi yn Gymraeg 24**

**Atodiad A – Mewnblaniadau pŵer batri a mewnblaniadau eraill a allai achosi problemau wrth amlosgi 25**

# Crynodeb

- Dylid ateb pob cwestiwn ar ffurflenni Amlosgi 1 a 4. Mae'r gofyniad am dystysgrif feddygol gadarnhau (ffurflen Amlosgi 5) wedi cael ei ddileu'n barhaol.
- Rhaid i chi fod yn fodlon bod gan yr ymgeisydd hawl i lofnodi a llenwi ffurflen Amlosgi 1.
- Eich cyfrifoldeb chi yw edrych yn fanwl ar ffurflen Amlosgi 4 ac ymholi ynghylch unrhyw anghysondebau.
- Dylech wrthod ffurflenni sy'n annarllenadwy.
- Rydym yn disgwyl i'r ymarferydd meddygol sy'n llofnodi'r ffurflen Amlosgi 4 fod wedi trin yr ymadawedig yn ystod ei salwch diwethaf a'i fod wedi gweld yr ymadawedig o fewn y 28 diwrnod cyn y farwolaeth – gan gynnwys ymgynghori gweledol/fideo, neu wedi gweld y corff yn bersonol ar ôl y farwolaeth (gan gynnwys er mwyn dilysu), a'i fod yn gallu datgan achos y farwolaeth hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred.
- Mae achosion marwolaeth, e.e. "methiant aml-organ" neu "trawiad ar y galon" yn annerbyniol fel achos marwolaeth; dylech wrthod ffurflenni nad ydynt yn cynnwys achos marwolaeth priodol.
- Mae "henaint" fel achos marwolaeth neilltuol i bobl dros 80 oed yn dderbyniol at ddibenion cofrestru, ond dylech edrych ar yr hanes diweddar gyda ffurflen Amlosgi 4 ac gyfer ymarferydd meddygol, a bod yn ofalus.
- Mae Covid-19 yn achos marwolaeth uniongyrchol neu sylfaenol derbyniol. Nid yw'r ffaith bod Covid-19 yn glefyd hysbysadwy o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) 2010 ynddo ei hun yn rheswm dros roi gwybod i'r crwner am y farwolaeth.
- Ni ddylid rhoi pwysau arnoch i dderbyn ceisiadau munud olaf; fodd bynnag, dylech fod yn barod i sicrhau eich bod ar gael rywbryd yn ystod pob diwrnod gwaith.
- Os yw crwner wedi llenwi ffurflen Amlosgi 6, mae dal angen i chi edrych ar ffurflen Amlosgi 1 i sicrhau bod y person priodol wedi gwneud cais am yr amlosgi.
- Os yw swyddfa crwner wedi cael gwybod am yr achos ond wedi penderfynu peidio â chyhoeddi ffurflen Amlosgi 6, rhaid i chi wneud eich penderfyniad eich hun ynghylch awdurdodi'r amlosgi ai peidio, gan gysylltu â swyddfa'r crwner yn ôl yr angen.

- Gallwch orchymyn archwiliad post-mortem. Fodd bynnag, bydd angen i chi gael caniatâd i'r archwiliad post-mortem gael ei gynnal gan y person mwyaf priodol (gweler cod ymarfer ATA Post-Mortem am arweiniad ar bwy all roi caniatâd) a allai fod yn ymgeisydd neu'n aelod arall o'r teulu, a dylid ei gwneud yn glir pwy fydd yn talu am yr archwiliad post-mortem cyn i chi roi cyfarwyddiadau.

- Rhaid i chi roi rhesymau ysgrifenedig i'r ymgeisydd os byddwch yn gwrthod cais.

- Rhaid i chi fod yn fodlon bod crwner wedi cyhoeddi ffurflen Amlosgi 6, bod y farwolaeth wedi'i chofrestru, neu nad oes angen ei chofrestru.

- Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am gymwysterau ymarferwyr meddygol Ewropeaidd ar gael ar wefan y Cyngor Meddygol Cyffredinol..

# Cyflwyniad

1. Dylech ymgyfarwyddo â’r ddeddfwriaeth yr ydych yn cyflawni eich dyletswyddau oddi tani. Daeth Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009 a chawsant eu diwygio yn 2016, 2017 ac eto yn 2022.

2. Mae pob cyfeiriad at reoliadau yn y canllawiau hyn yn gyfeiriad at Reoliadau 2008 fel y’u diwygiwyd.

## Swyddogaethau

3. Nodir eich swyddogaethau fel canolwr meddygol yn rheoliadau 23 i 28 y Rheoliadau Amlosgi, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:
   - Peidio â chaniatáu amlosgi oni bai eich bod yn fodlon bod y farwolaeth wedi’i chofrestru’n briodol, neu nad oes angen iddi gael ei chofrestru, neu fod crwner wedi cyhoeddi tystysgrif fel y nodir yn ffurflen Amlosgi 6;
   - Cael eich bodloni bod y cais a'r tystysgrifau yn unol â gofynion y Rheoliadau;
   - Cael eich bodloni bod yr ymarferydd meddygol sy'n cwblhau'r dystysgrif wedi gwneud ymholiadau digonol;
   - Cael eich bodloni naill ai bod y cais wedi’i wneud gan ysgutor neu berthynas agos i’r ymadawedig, neu fod digon o esboniad pam nad yw’r cais wedi’i wneud gan ysgutor neu berthynas agos;
   - Peidio â chaniatáu’r amlosgi oni bai eich bod yn fodlon bod y ffaith a’r achos marwolaeth wedi’u canfod hyd eithaf gwybodaeth a chred ymarferydd, neu os na chadarnhawyd hynny, bod y crwner wedi ymchwilio i’r farwolaeth ac wedi rhyddhau’r corff;
   - Gofyn i batholegydd gynnal archwiliad post-mortem os nad yw achos y farwolaeth wedi cael ei ganfod yn bendant neu, yn benodol, bod achos y farwolaeth a roddwyd ar ffurflen Amlosgi 4 yn awgrymu y gallai fod o ganlyniad i wenwyn, trais, llawdriniaeth anghyfreithlon, amddifadrwydd neu esgeuluso (er y byddai’r achosion hyn fel arfer yn cael eu hysbysu i’r llys), yn amodol ar gael caniatâd y person priodol (fel y nodir yn Rhan 1 Deddf Meinweoedd Dynol 2004);
   - Peidio â chaniatáu amlosgi os bydd archwiliad post-mortem o’r fath yn methu â datgelu achos y farwolaeth, oni bai fod ymchwiliad wedi’i agor a bod crwner wedi cyhoeddi ffurflen Amlosgi 6;
   - Peidio â chaniatáu’r amlosgi os oes amgylchiadau amheus eraill sy’n gysylltiedig â marwolaeth yr ymadawedig, boed y rheini wedi’u datgelu yn y dystysgrif feddygol neu fel arall, oni bai fod ymchwiliad wedi’i agor a bod crwner wedi llenwi ffurflen Amlosgi 6;

- Os yw'r farwolaeth wedi'i chyfeirio at y crwner, peidio â chaniatáu'r amlosgi hyd nes y bydd ymchwiliad wedi'i agor, os bydd crwner wedi rhoi hysbysiad o'i fwriad i agor ymchwiliad;
- Cyflwyno adroddiadau o'r fath i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn ôl yr angen o bryd i'w gilydd;
- Ystyried unrhyw sylwadau gan yr ymgeisydd am amlosgi yn dilyn ei archwiliad ef neu hi o'r dystysgrif feddygol, a chyfeirio'r achos at grwner yn ôl yr angen.

4. Dylech osgoi unrhyw oedi diangen cyn amlosgi ond mae'n hanfodol eich bod yn sicrhau na fydd unrhyw amlosgi'n digwydd oni bai fod yr holl ffurflenni perthnasol wedi'u llenwi'n gywir yn unol â'r Rheoliadau. Mae gennych y pŵer statudol i wrthod ffurflenni sydd wedi'u llenwi'n annigonol, ac efallai y byddwch yn gwrthod awdurdodi amlosgi hyd nes y bydd y ffurflenni wedi'u llenwi'n foddhaol. Fodd bynnag, rhaid i chi roi eich rhesymau os gwrthodwch awdurdodi amlosgi.

5. Efallai y bydd adegau pan fydd yr ateb i gwestiwn 3 Rhan 4 ffurflen Amlosgi 1 yn dangos gwrthwynebiad gan berthynas agos arall, neu ysgutor, i'r amlosgi arfaethedig. Yn yr amgylchiadau hyn, byddem yn awgrymu eich bod chi a'r awdurdod amlosgiadau yn gwahodd yr ymgeisydd i ddatrys unrhyw faterion allanol cyn gwneud cais am amlosgiad.

# Ffurflenni Amlosgi – Cyffredinol

6. Gellir lawrlwytho’r holl ffurflenni amlosgi oddi ar ein gwefan yn www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance. Ni ddylid defnyddio fersiynau anstatudol o’r ffurflenni hyn. Rhaid i amlosgfeydd neu drefnwyr angladdau beidio â newid geiriad y ffurflenni, ac ni ddylech awdurdodi unrhyw amlosgi nad yw’n defnyddio’r ffurflenni statudol.

7. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi fersiynau Cymraeg o’r ffurflenni a/neu’r fersiynau a gyhoeddir yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd gan ffurflenni o’r fath yr un statws â’r ffurflenni sy’n ymddangos yn y Rheoliadau Amlosgi.

## Y rheini sy’n gallu llofnodi ffurflen Amlosgi 4

8. Mae rheoliad 17 o'r Rheoliadau Amlosgi yn ei gwneud yn ofynnol i'r dystysgrif feddygol (ffurflen Amlosgi 4) gael ei llenwi gan ymarferydd meddygol cofrestredig sydd â thrwydded i ymarfer gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd â chofrestriad dros dro neu gyfnodol a thrwydded i ymarfer gyda’r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

9. Rydym yn disgwyl i’r ymarferydd meddygol sy’n llofnodi’r ffurflen Amlosgi 4 fod wedi trin yr ymadawedig yn ystod ei salwch diwethaf a’i fod wedi gweld yr ymadawedig o fewn y 28 diwrnod cyn y farwolaeth – gan gynnwys ymgynghori gweledol/fideo, neu wedi gweld y corff yn bersonol ar ôl y farwolaeth (gan gynnwys er mwyn dilysu), a’i fod yn gallu datgan achos y farwolaeth hyd eithaf ei wybodaeth a’i gred.

10. Ni ddylai’r ymarferydd meddygol sy’n llenwi ffurflen amlosgi 4 fod yn berthynas, cydweithiwr neu bartner yn yr un practis neu dîm clinigol â chi. Ar gyfer ymgynghorwyr ysbyty, ni fyddai cydweithwyr yn yr un arbenigedd â chi fel arfer yn cael eu hystyried yn ‘yr un practis neu dîm clinigol’. Ni ddylech fod wedi bod yn gyfrifol am ofal yr ymadawedig yn ystod ei salwch diwethaf.

11. Os oes pryder nad ydych o bosibl yn ddigon annibynnol ar y meddyg sy’n llenwi ffurflen amlosgi 4 dylech ystyried a ddylai’r cais am amlosgi gael ei archwilio a’i awdurdodi gan ganolwr meddygol arall.

## Deintyddion

12. Nid yw deintyddion yn gymwys i gwblhau'r dystysgrif feddygol na'r dystysgrif feddygol gadarnhau.

# Cwblhau ffurflenni Amlosgi 1 ac Amlosgi 4

## Cyffredinol

13. Mae’n hanfodol:
    - Llenwir pob ffurflen yn llawn
    - Atebir pob cwestiwn
    - Does dim cwestiynau wedi’u dileu
    - Mae’r ffurflenni wedi’u hysgrifennu mewn llawysgrifen ddarllenadwy
    - Caiff unrhyw anghysondebau rhwng y ffurflenni o ran dyddiad ac amser y farwolaeth eu datrys.

14. Mae anghysonderau ynghylch dyddiad ac amser y farwolaeth yn peri pryder penodol, a dylech bob amser eu herio. Er enghraifft, gellir egluro bod yr ymarferydd meddygol wedi gweld yr ymadawedig, a dim ond wedi cadarnhau’r farwolaeth sawl awr ar ôl i’r teulu gredu iddo farw. Ni ddylid derbyn yr esboniad hwn heb gadarnhad gan bob parti.

15. Mae byrfoddau ar gyfer achosion marwolaeth yn annerbyniol os ydynt yn aneglur, yn anarferol neu’n amwys; mewn achosion o’r fath dylech wneud ymholiadau pellach gyda’r ymarferydd meddygol dan sylw. Rhaid cael llofnod electronig neu lofnod ysgrifenedig â llaw, nid byrfodd na stamp. Mater i'r ymarferydd meddygol dan sylw yw cwblhau'r dystysgrif ac nid i berson arall wneud hynny ar ei ran.

16. Mater i chi yw penderfynu a yw’r wybodaeth a ddarperir ar y dystysgrif yn caniatáu i chi awdurdodi’r amlosgi, gyda neu heb ymholiad pellach. Os na fu digon o ymholiadau neu os oes achos marwolaeth aneglur, mae'n debygol y bydd angen i chi wneud ymholiadau pellach gyda'r ymarferydd meddygol ac, mewn rhai achosion, yr ymgeisydd.

# Ffurflen Amlosgi 1: Cais am amlosgi: yr hawl i gael archwiliad (wedi disodli ffurflen Amlosgi 1 a gyhoeddwyd yn 2009)

17. Nid oes angen gwrthlofnod fel yn achos fersiynau blaenorol o'r ffurflen hon.

18. Dylai'r cais gael ei wneud gan ysgutor neu berthynas agos i'r ymadawedig. Lle nad yw hynny yn cael ei wneud, dylid gwneud ymholiadau i ganfod naill ai
    - bod ymdrechion i ganfod unrhyw ysgutor neu berthynas agos wedi methu;
    - nad yw'r ysgutor neu'r perthynas agosaf yn gwrthwynebu amlosgi; neu
    - nad yw'r ysgutor neu'r perthynas agosaf yn dymuno gwneud y cais ei hunain.

19. Mewn rhai achosion, bydd y perthynas agosaf yn cael ei ddisgrifio fel rhywun sy'n rhy ddigalon i wneud y cais yn bersonol a bydd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i aelod arall o'r teulu. Mae hyn yn ddealladwy, ond efallai y bydd angen i chi wneud ymholiadau pellach i sefydlu'r sefyllfa gywir.

20. Mae Rhan 5 ffurflen Amlosgi 1 yn ymwneud â hawl i archwilio ffurflen Amlosgi 4. Cyflwynwyd hyn yn 2009 fel diwygiad pwysig cysylltiedig â Shipman o ganlyniad i adborth gan deuluoedd dioddefwyr Harold Shipman a gredai y byddent wedi cydnabod bod achos marwolaeth yn anghywir pe baent wedi gweld y ffurflenni amlosgi yr oedd wedi'u llenwi. Ni fyddwch o reidrwydd yn rhan o'r broses, ond weithiau efallai y gofynnir i chi esbonio'r atebion ar y ffurflen i ymgeiswyr. Efallai y bydd angen i chi hefyd ystyried unrhyw bryderon sydd gan yr ymgeisydd ynghylch cywirdeb y wybodaeth ar y ffurflenni, rhag ofn y bydd yn rhaid i chi gyfeirio'r achos at grwner neu at ddibenion ymchwiliad arall. O'r herwydd, prif bwrpas hawl yr ymgeisydd i gael archwiliad yw nodi meysydd pryder a allai fod angen ymchwiliad pellach. Ni ddylai hawl yr ymgeisydd i archwilio'r ffurflen ddibynnu ar a yw'n fodlon talu ffi i'r canolwr am esboniad meddygol o achos y farwolaeth.

21. Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gall trefnwyr angladdau ysgrifennu "ddim yn berthnasol" yn Rhan 5 ffurflen Amlosgi 1 lle mae'r farwolaeth wedi cael ei chyfeirio at grwner, gan nad yw'r hawl i archwilio yn berthnasol yma. Fel arall, os yw'r adran hon wedi'i gadael yn wag, dylech gymryd yn ganiataol bod y trefnydd angladdau wedi trafod yr hawl i archwilio gyda'r ymgeisydd, ac nad ydynt yn dymuno archwilio'r tystysgrifau.

22. Mae Rhan 6 ffurflen Amlosgi 1 yn ymdrin â dymuniadau'r ymgeiswyr am yr hyn a ddylai ddigwydd i'r llwch ar ôl yr amlosgi. Mae hefyd yn tynnu sylw ymgeiswyr at y posibilrwydd, mewn rhai achosion prin, megis amlosgi babanod marw-anedig neu

fabanod bach neu rannau o'r corff, na ellir adfer llwch. Cafodd hyn ei gyflwyno yn 2018 o ganlyniad i ymgynghoriad y Llywodraeth ar amlosgi yn dilyn ymchwiliadau i achosion amlosgi babanod lle na chafodd llwch ei adfer a hefyd lle na chafodd llwch a adferwyd ei ddychwelyd i rieni a oedd wedi cael gwybod nad oedd llwch yn bodoli. Byddwch yn dymuno bod yn fodlon bod modd cyflawni dymuniadau'r ymgeiswyr.

# Ffurflen Amlosgi 2: Cais i waredu rhannau o gorff (wedi disodli ffurflen Amlosgi 2 a gyhoeddwyd yn 2009)

23. Mae ystyriaethau gweddol debyg yn berthnasol i ffurflen Amlosgi 2 ag sy'n berthnasol i ffurflen Amlosgi 1 (gweler paragraffau 13 i 15 uchod). Nid oes hawl i archwilio unrhyw un o'r ffurflenni sy'n ymwneud â rhannau o'r corff.

# Ffurflen Amlosgi 3: Cais i amlosgi gweddillion baban marw-anedig (wedi disodli ffurflen Amlosgi 3 a gyhoeddwyd yn 2009)

24. Nid oedd gan y rheoliadau blaenorol ffurflenni cais statudol mewn perthynas â babanod marw-anedig ac rydym yn ymwybodol bod amlosgi wedi digwydd ar sail dogfen gofrestru yn unig. Erbyn hyn, mae angen ffurflen gais ar gyfer amlosgi babanod marw-anedig, yn ogystal â ffurflen a lenwir gan ymarferydd meddygol neu fydwraig (gweler paragraff 47 isod) neu ddatganiad a roddir gan berson a all roi gwybodaeth am yr enedigaeth. Disgwylir y bydd un o'r rhieni yn llenwi'r ffurflen hon, neu y bydd swyddog profedigaeth mewn ysbyty yn gwneud hynny ar eu rhan ar gais.

25. Gan nad oes achos o farwolaeth i ymchwilio iddo ar gyfer babanod marw-anedig, nid oes gan yr ymgeisydd hawl i archwilio'r ffurflen feddygol (ffurflen Amlosgi 9). Fodd bynnag, mae angen i chi fod yn fodlon, fel gyda ffurflen Amlosgi 1, bod gan yr ymgeisydd hawl i wneud y cais a hefyd nad oes unrhyw beth yn y wybodaeth ar y ffurflenni a ddarparwyd i awgrymu bod y baban wedi'i eni'n fyw. Os oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod y babi wedi'i eni'n fyw neu wedi dangos arwyddion annibynnol o fywyd, dylech drafod hyn gyda'r crwner.

26. Mae Rhan 6 ffurflen Amlosgi 3 yn ymdrin â dymuniadau'r ymgeiswyr am yr hyn a ddylai ddigwydd i'r llwch ar ôl yr amlosgi. Mae'n tynnu sylw ymgeiswyr at y posibilrwydd na fydd llwch yn cael ei adfer mewn rhai achosion prin. Cafodd hyn ei gyflwyno yn 2018 o ganlyniad i ymgynghoriad ar amlosgi yn dilyn ymholiadau ynghylch amlosgi babanod pan na adferwyd llwch ar ôl amlosgi rhai babanod marw-anedig a babanod bach, a hefyd lle na chafodd llwch a adferwyd ei ddychwelyd i rieni a oedd wedi cael gwybod nad oedd llwch yn bodoli. Byddwch yn dymuno bod yn fodlon bod modd cyflawni dymuniadau'r ymgeiswyr.

# Ffurflen Amlosgi 4: Tystysgrif Feddygol (wedi disodli ffurflen B)

## Cwestiwn 5: “Ymarferydd meddygol arferol”

27. Gydag ambell eithriad, cymerir mai'r ymarferydd meddygol arferol yw meddyg teulu'r ymadawedig. Os yw'r ymadawedig wedi bod yn glaf mewnol mewn ysbyty am unrhyw gyfnod ac eithrio cyfnod byr o amser, dylid ystyried mai’r ymarferydd meddygol yn yr ysbyty a fynychodd ef neu hi am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwn, yw’r ymarferydd meddygol arferol. (er y dylai’r achosion hyn fod wedi cael eu trafod o leiaf gyda’r crwner).

## Cwestiwn 6: “Nodwch am ba hyd y buoch yn gofalu am yr ymadawedig yn ystod ei waeledd olaf?”

28. Dylai’r ymarferydd meddygol sy’n ardystio fod wedi bod yn bresennol yn ystod ei salwch diwethaf. Mewn lleoliadau gofal sylfaenol, dylai’r meddyg sy’n ardystio fod wedi trin yr ymadawedig yn ystod y dyddiau cyn y farwolaeth. Mae presenoldeb (cyn marwolaeth) yn cynnwys ymgynghoriad digidol drwy fideo, ond nid drwy ymgynghoriad sain yn unig (e.e. dros y ffôn).

## Cwestiwn 7: “Nodwch nifer y dyddiau a’r oriau cyn marwolaeth yr ymadawedig pryd i bu i chi eu gweld yn fyw ddiwethaf?”

29. Y disgwyliad arferol yw y bydd yr ymadawedig wedi cael ei weld gan yr ymarferydd meddygol cymeradwy sy’n bodloni’r meini prawf presenoldeb ar gyfer cwblhau’r dystysgrif marwolaeth feddygol.  Gallwch dderbyn cyfnod mwy estynedig mewn hosbis neu leoliad gofal lliniarol, os oes nyrsys penodol ar gael i ymgynghori â hwy.

30. Os mai drwy ymgynghoriad digidol y gwelwyd yr ymadawedig ddiwethaf, dylai’r ymarferydd meddygol sy’n ardystio nodi hynny drwy ysgrifennu ‘drwy fideo’ i’r dde o’r blwch ‘oriau’. Nid ddylai ymgynghoriadau sain yn unig (e.e. dros y ffôn) fod yn dderbyniol at ddibenion Cwestiwn 7.

## Cwestiwn 8: “Nodwch y dyddiad a’r amser pryd y bu i chi weld corff yr ymadawedig a’r archwiliad a wnaethoch ar y corff”

31. Lle bo’r ymarferydd meddygol sy’n ardystio wedi gweld corff yr ymadawedig, dylent gwblhau Cwestiwn 8 gyda’r dyddiad a’r amser, a chofnod o’r archwiliad a wnaed.

32. Ble cynhaliwyd post-mortem mewn ysbyty (wedi’i gydsynio) gan yr ymarferydd meddygol sy’n ardystio, ac nid gan grwner, neu gan unrhyw ymarferydd meddygol arall y mae’r ymarferydd meddygol sy’n ardystio’n gwybod amdano, dylid nodi hyn yma, gyda’r canfyddiadau a’r achos marwolaeth yn cael eu rhoi mewn ymateb i Gwestiwn 11.

## Cwestiwn 9: Disgrifiad o symptomau a chyflyrau eraill

33. Adran testun rhydd yw hon sy’n rhoi cyfle i’r ymarferydd meddygol egluro sut y penderfynodd ar achos y farwolaeth. Dylai'r ymarferydd meddygol bob amser gyfeirio at ei nodiadau meddygol, yn ogystal â'i sylwadau ef neu hi ei hun ynghylch cyflwr yr ymadawedig.

## Cwestiwn 11: Achos y farwolaeth

34. Rhaid i chi sicrhau eich bod wedi ateb pob adran o’r cwestiwn hwn. Nid yw modd marwolaeth ar ei ben ei hun byth yn dderbyniol. Mae angen i fethiant organ egluro achos y methiant hwnnw. Efallai y byddai’n ddefnyddiol i chi gyfeirio at restr Achosion Marwolaeth Coleg Brenhinol y Meddygon.

## Cwestiwn 12 a 13: Llawdriniaethau

35. Bwriad yr atebion i’r cwestiynau hyn yw canfod achosion posibl o ddamweiniau llawfeddygol (er y dylid bod wedi cyfeirio marwolaethau o’r fath at grwner i ymchwilio iddynt), a nodi gweithdrefnau diagnostig a gyfrannodd at achos y farwolaeth. Os na fydd gweithdrefnau llawfeddygol o arwyddocâd posibl yn cael eu cynnwys, gall hyn godi amheuaeth ynghylch dibynadwyedd y dystysgrif.

## Cwestiynau 14, 15 ac 16: Y rheini oedd yn nyrsio yr ymadawedig neu a oedd yn bresennol adeg y farwolaeth

36. Bwriad y cwestiynau hyn yw helpu i gasglu gwybodaeth gadarnhau. Dylid rhoi enwau penodol (a manylion cyswllt), gan y byddant yn cynorthwyo'r ymarferydd meddygol sy'n cadarnhau a chithau. Yn wir, mae nyrs ddienw neu aelod o'r teulu heb fanylion cyswllt yn annhebygol o fod o unrhyw werth.

## Cwestiynau 17, 18 ac 19: Cefndir ac amgylchiadau

37. Mae'r cwestiynau hyn yn debygol o gael eu hateb yn negyddol, ond os nad ydynt, byddant yn sicr yn ysgogi ymchwiliad pellach ac, mewn llawer achos, yn arwain at gyfeirio at grwner.

## Cwestiynau 20 a 21: Cyfeirio at grwner/swyddfa'r crwner

38. Os ydych chi'n gwbl fodlon ynghylch achos y farwolaeth, ni fydd angen i chi ymgysylltu â'r crwner. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae pryderon neu amheuon, efallai y byddwch am drafod yr achos ymhellach gyda'r crwner neu ei staff. Mater i chi yw bod yn fodlon ynghylch achos y farwolaeth cyn awdurdodi amlosgi.

## Cwestiwn 22: Cofrestru marwolaeth

39. Yn y rhan fwyaf o achosion lle mae'r ymarferydd meddygol sy'n ardystio'r farwolaeth ar gyfer cofrestru hefyd wedi llenwi ffurflen Amlosgi 4, mae'n annhebygol y bydd angen i chi wneud ymholiadau pellach ynghylch y cofrestriad. Fodd bynnag, os mai "na" yw'r ateb, efallai yr hoffech holi'r ymarferydd meddygol sydd wedi cwblhau'r dystysgrif feddygol am achos y farwolaeth, os yw ar gael, er mwyn sicrhau bod unrhyw anghysondebau neu ansicrwydd posibl yn cael eu datrys. Dim ond os ydych chi'n fodlon bod achos y farwolaeth wedi'i ganfod y dylech chi awdurdodi amlosgi.

## Cwestiwn 23: Tynnu mewnblaniadau

40. Gall rhai mewnblaniadau achosi difrod i beiriannau a pherygl i fywyd dynol os ydynt yn ffrwydro a/neu'n achosi risgiau eraill fel ymbelydredd yn ystod y broses amlosgi. Mae

mewnblaniadau hoelion gosod, a roddir dan bwysedd i esgyrn, yn peri pryder penodol o ran iechyd a diogelwch. Rhaid i chi fod yn fodlon bod unrhyw fewnblaniad sy'n aros yng nghorff yr ymadawedig yn ddiogel – fel arall rhaid ei dynnu. Ceir rhestr o fewnblaniadau a allai fod yn beryglus yn Atodiad A.

### Rhan 3: Datganiad gwirionedd

41. Os oes unrhyw amheuaeth (yn enwedig os yw'r ffurflen wedi'i llenwi'n wael), dylech wirio'r cymwysterau cofrestredig a chyfeirnod y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar wefan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Rhaid i bob llofnodwr fod yn ymarferydd meddygol cofrestredig sydd â thrwydded i ymarfer (gan gynnwys y rheini sydd â chofrestriad dros dro neu gyfnodol), er bod y dyddiad cofrestru yn amherthnasol.

## Ffurflen Amlosgi 6: Tystysgrif crwner (wedi disodli ffurflen E)

42. Rhaid hysbysu crwner os daw unrhyw amgylchiadau amheus i'ch sylw neu os ydych chi'n credu bod gennych ddyletswydd i roi hysbysiad o dan Reoliadau Hysbysu am Farwolaethau 2019 - gweler www.gov.uk/government/publications/notification-of-deathsregulations-2019-guidance. Os ymgynghorwyd â'r crwner gan yr ymarferydd meddygol a lenwodd ffurflen Amlosgi 4, neu gennych chi, a bod y crwner o'r farn nad oes angen iddynt gymryd rhan, dylai'r ymarferydd meddygol dan sylw (neu chi, fel sy'n briodol) gofnodi hyn wrth ymyl Cwestiwn 21 ffurflen Amlosgi 4, neu mewn lle gwag ar ffurflen Amlosgi 10.

43. Weithiau bydd gan grwneriaid a chanolwyr meddygol farn wahanol am yr hyn sy'n achos marwolaeth derbyniol neu briodol. Nid oes rhaid i chi dderbyn barn y crwner a gallwch wrthod awdurdodi amlosgi os nad ydych chi'n credu y gallwch chi wneud hynny. Mewn achosion o'r fath, dylech roi gwybod i'r crwner am eich penderfyniad ac ystyried a oes angen archwiliad post-mortem.

# Ffurflen Amlosgi 7: Archwiliad anatomegol (wedi disodli ffurflen H)

44. Gall perthnasau neu ysgutorion yr ymadawedig wneud cais am amlosgi corff sydd wedi bod yn destun archwiliad anatomegol yn unol â Deddf Meinweoedd Dynol 2004 neu'r ddeddfwriaeth anatomi flaenorol, gan ddefnyddio ffurflen Amlosgi 1 ynghyd â ffurflen Amlosgi 7. Fel arall, caiff awdurdodau'r Ysgol Anatomi neu sefydliad trwyddedig arall o'r fath wneud y cais. Yn yr achosion hyn, dylech fod yn fodlon bod y person priodol wedi llofnodi'r cais a bod rheswm boddhaol pam nad yw'r ysgutor neu'r perthynas agosaf wedi gwneud y cais. Os oes unrhyw amheuaeth, dylech wneud ymholiadau i ganfod a yw ymdrechion i adnabod unrhyw ysgutor neu berthynas agos wedi methu, neu a yw'r ysgutor neu'r perthynas agosaf yn gwrthwynebu'r cais, ond nid ydynt yn dymuno gwneud y cais eu hunain.

45. O bryd i'w gilydd, gellir gwneud cais i amlosgi rhannau sy'n weddill o gorff a roddwyd dan ddarpariaethau Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (neu'r ddeddfwriaeth a ddisodlwyd gan y Ddeddf 2004 honno) ac sydd eisoes wedi'i hamlosgi ar wahân. Ar yr amod bod y rhannau o'r corff a gedwir yn cael eu tynnu wrth archwilio'r corff a roddwyd, rydym o'r farn ei bod yn rhesymol amlosgi ar awdurdod y ffurflen Amlosgi 7 bresennol.

# Ffurflen Amlosgi 8: Tystysgrif yn rhyddhau rhannau o'r corff ar gyfer amlosgi (wedi disodli ffurflen DD)

46. Mae rheoliad 19 yn ymdrin ag amlosgi rhannau o'r corff a dynnwyd yn dilyn archwiliad post-mortem. Gall rhannau o'r corff hefyd gael eu llosgi yn ôl y dymuniad ac ni fydd gan y canolwr meddygol unrhyw ran mewn achosion o'r fath. Bydd angen i chi archwilio'r ffurflen hon, ynghyd â'r ffurflen gais (ffurflen Amlosgi 2) a bod yn fodlon y cofrestrwyd yr ymadawedig neu fod crwner wedi cyhoeddi ffurflen Amlosgi 6 mewn perthynas â'r farwolaeth hon.

# Ffurflen Amlosgi 9: Tystysgrif genedigaeth farw

47. Dylech fod yn fodlon bod y wybodaeth ar y ffurflen hon yn cyfateb i'r wybodaeth ar y ffurflen gais ar gyfer marw-enedigaeth (ffurflen Amlosgi 3). Gellir llenwi Ffurflen Amlosgi 9 naill ai gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu gan fydwraig gofrestredig. Os oes unrhyw amheuaeth, efallai yr hoffech wirio cofrestriad gyda'r corff llywodraethu priodol, naill ai'r Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

# Ffurflenni Amlosgi 10 (wedi disodli ffurflen F), Amlosgi 12 (wedi disodli ffurflen FF) ac Amlosgi 13: Awdurdod canolwr meddygol i amlosgi

48. Wrth lenwi'r ffurflenni hyn, dylech wirio manylion enw, cyfeiriad a galwedigaeth yr ymadawedig yn erbyn y rheini ar y ffurflenni eraill a'r ddogfen gofrestru, os oes rhai, ac ymholi ynghylch unrhyw anghysondebau cyn i chi awdurdodi amlosgi. Gall galwedigaeth yr ymadawedig, ynghyd ag achos ymddangosiadol y farwolaeth, ddangos bod y person wedi marw o glefyd diwydiannol. Os ydych chi'n poeni bod hyn wedi cael ei anwybyddu, efallai y byddai'n ddefnyddiol trafod y mater gyda'r crwner, gan y gallai unrhyw fethiant i gofnodi'r wybodaeth hon yn gywir gael effaith ar unrhyw hawliadau iawndal am glefydau diwydiannol sydd heb eu talu.

49. Dylech fod â rhywfaint o wybodaeth leol am y prosesau diwydiannol sy'n digwydd, neu sydd wedi digwydd, yn eich ardal. Mae Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 yn rhestru clefydau diwydiannol y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt.

50. Rhaid i chi bob amser lenwi Rhan 2 ffurflen Amlosgi 10, 12 neu 13.

# Ffurflen Amlosgi 11: Tystysgrif ar ôl archwiliad post-mortem (wedi disodli ffurflen D)

51. Ar adegau prin iawn, mae'n bosibl y bydd y wybodaeth ar y ffurflen (Amlosgi 4) yn parhau i fod yn anfoddhaol ac efallai na fydd crwner yn fodlon agor ymchwiliad na gorchymyn archwiliad post-mortem. Gallwch wedyn wrthod awdurdodi'r amlosgi, gan roi eich rhesymau. Fodd bynnag, efallai y bydd y teulu'n dal i fod eisiau i'r corff gael ei amlosgi. Yr unig opsiwn a fyddai ar gael wedyn fyddai i chi drefnu i archwiliad post-mortem gael ei gynnal gan batholegydd o'ch dewis chi neu'r awdurdod amlosgi, dan Reoliad 24(2). Rhaid i unrhyw archwiliad post-mortem gael ei gynnal o dan awdurdod trwydded a roddwyd o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.

52. Ym mhob achos o'r math hwn, rhaid i chi gael caniatâd y teulu fel y nodir yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004. Er bod y Ddeddf hon yn darparu ar gyfer rhoi caniatâd i'r ymadawedig gael archwiliad post-mortem tra ei fod yn dal yn fyw, nid yw hyn yn debygol o fod yn gyffredin. Fel arall, bydd yn rhaid i'r patholegydd fod yn fodlon bod cynrychiolydd enwebedig neu oedolyn mewn "perthynas gymhwysol" gyda'r ymadawedig yn union cyn ei farwolaeth, a ddiffinnir gan is-adran 54(9) Deddf 2004 fel un sy'n briod, partner sifil, rhiant, brawd, brawd, chwaer, nain neu daid, ŵyr/wyres, plentyn brawd neu chwaer, llystad, llysfam, hanner brawd, hanner brawd a chwaer hir dymor. Mae'r perthnasoedd cymhwysol hyn yn cael eu rhestru a dylid gofyn am ganiatâd gan y person uchaf yn yr hierarchaeth o berthnasoedd cymhwysol (gweler cod ymarfer HTA Post-Mortem am fanylion ynghylch pwy all roi caniatâd). Bydd angen i'r oedolyn priodol ac aelodau eraill o'r teulu a'r awdurdod amlosgiadau gytuno ar unrhyw benderfyniad ynghylch unrhyw ffi ar gyfer yr archwiliad post-mortem. Yn amodol ar nifer y profion sy'n ofynnol, gall y ffi fod yn eithaf sylweddol.

# Materion eraill

## Achosion marwolaeth – COVID-19

53. Mae Covid-19 yn achos marwolaeth uniongyrchol neu sylfaenol derbyniol at ddibenion cwblhau'r Dystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth. Nid yw Covid-19 yn rheswm ar ei ben ei hun i gyfeirio marwolaeth at grwner o dan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

54. Nid yw'r ffaith bod Covid-19 yn glefyd hysbysadwy o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) 2010 yn golygu bod angen atgyfeirio at grwner ar sail ei statws hysbysadwy.

## Achosion marwolaeth – henaint

55. Mae Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredinol yn cynghori, mewn rhai amgylchiadau ac os yw'r ymadawedig yn hŷn nag 80 oed, y gall "henaint" fod yn achos marwolaeth derbyniol ar gyfer tystysgrifau meddygol. Nid yw "henaint" ar ei ben ei hun, fodd bynnag, yn debygol o fod yn achos marwolaeth derbyniol at ddibenion amlosgi, gan fod yn rhaid i chi fod yn fodlon bod achos y farwolaeth wedi'i ganfod yn bendant.

56. Mae "henaint" yn cael ei roi'n aml fel achos marwolaeth lle bu'r ymadawedig yn dioddef o nifer o gyflyrau a arweiniodd at farwolaeth ond ni fu'n bosibl penderfynu pa gyflwr penodol a arweiniodd at y farwolaeth. Yn y pen draw, penderfyniad clinigol gan yr ymarferydd meddygol sy'n ardystio neu'r ymarferwyr meddygol yw hwn. Fodd bynnag, dylech fod yn fodlon bod "henaint" yn achos marwolaeth priodol yn yr holl amgylchiadau. Ni ellir ei ddefnyddio os yw achos y farwolaeth "heb ei chanfod" yn briodol a dylid cyfeirio'r achosion hyn at grwner.

## Marwolaethau dramor

57. Pan fydd rhywun yn marw dramor a bod y corff yn dychwelyd i Gymru neu Loegr ar gyfer amlosgi, mae trefniadau arbennig yn gymwys mewn perthynas â ffurflenni cais a thystysgrifau o dan reoliad 14.

58. Pan fydd rhywun yn marw yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel, gallwch dderbyn yr hyn sy'n cyfateb i'r ffurflenni cais amlosgi a gyflwynwyd dan y gyfraith sy'n berthnasol yn yr awdurdodaethau hynny, ar yr amod eu bod yn

cynnwys yr holl fanylion sy'n ofynnol dan ffurflen Amlosgi 1. Gallwch hefyd dderbyn yr hyn sy'n cyfateb o dan y gyfraith yn yr awdurdodaethau hynny ar y dystysgrif feddygol, tystysgrif feddygol gadarnhau, tystysgrif y crwner neu'r dystysgrif yn dilyn archwiliad anatomegol, ar yr amod eu bod yn cynnwys yr holl fanylion sy'n ofynnol gan y tystysgrifau hynny fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau.

59. Os bydd rhywun yn marw y tu allan i Gymru a Lloegr, ond nid yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel, cewch dderbyn ffurflen gais sy'n cynnwys y manylion y gofynnir amdanynt yn ffurflen Amlosgi 1. Byddai hyn yn cynnwys datganiad cyfatebol o wirionedd.

60. Yn ymarferol, bydd y rhan fwyaf o geisiadau am amlosgi mewn perthynas â marwolaethau y tu allan i Gymru a Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel yn gofyn am ffurflen Amlosgi 6 gan grwner, a fydd yn archwilio’r dogfennau tramor perthnasol gan gynnwys y dystysgrif marwolaeth. Bydd angen i'r crwner fod yn fodlon bod achos y farwolaeth wedi'i ganfod neu y bydd angen cynnal ymchwiliad. Os oes gennych unrhyw bryderon am achos y farwolaeth lle mae rhywun wedi marw y tu allan i Gymru a Lloegr, dylech drafod yr achos gyda'r crwner.

## Marw-enedigaethau y tu allan i Gymru a Lloegr

61. Yn achos plentyn marw-anedig y tu allan i Gymru a Lloegr, cewch dderbyn tystysgrif marw-enedigaeth feddygol a roddwyd gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu fydwraig gofrestredig (neu unigolyn sydd â hawl i ymarfer fel ymarferydd meddygol neu fydwraig) yn y man lle digwyddodd y farw-enedigaeth, o dan reoliad 14(4), ar yr amod ei bod yn cynnwys yr holl fanylion sy’n ofynnol gan y dystysgrif marw-enedigaeth. Byddech yn gwneud hyn ar ôl gwneud unrhyw ymholiadau sy’n angenrheidiol yn eich barn chi, ar yr amod eich bod yn fodlon bod y babi’n farw-anedig ac nad oes rheswm dros archwiliad pellach.

## Gweddillion anhysbys

62. Ni ddylech ystyried ceisiadau ar gyfer amlosgi olion anhysbys oni bai fod ffurflen Amlosgi 6 y crwner wedi cael ei chynhyrchu. Bydd yr amgylchiadau sy’n ei gwneud yn amhosibl dod o hyd i’r gweddillion hefyd yn mynnu bod y crwner yn cael gwybod am y farwolaeth a bydd ymchwiliad digonol wedi cael ei gynnal wedyn.

## Amlosgi gweddillion ffetysau anhyfyw

63. Nid yw gweddillion ffetysau o dan gyfnod beichiogrwydd o 24 wythnos yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Amlosgi 2008, er y bydd y rhan fwyaf o amlosgfeydd yn barod i amlosgi gweddillion o'r fath yn ôl eu disgresiwn. Ni ddylech lenwi ffurflen Amlosgi 10 i awdurdodi eu hamlosgi. Os bydd rheolwyr a staff amlosgfeydd yn gofyn i chi am gyngor proffesiynol ynghylch cais i amlosgi ffoetws rhag-hyfyw, mater i chi yw a ydych yn darparu cyngor o'r fath ai peidio.

# Ffurflenni wedi’u llenwi yn Gymraeg

64. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i’r Gymraeg yng Nghymru, yn gwneud darpariaeth ar gyfer creu safonau ymddygiad mewn perthynas â defnyddio’r Gymraeg ac yn gosod dyletswyddau ar gyrff penodol i gydymffurfio â’r safonau hynny.

65. Mae Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2017 yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparu ffurflenni amlosgi yn Gymraeg.

# Atodiad A – Mewnblaniadau pŵer batri a mewnblaniadau eraill a allai achosi problemau wrth amlosgi

Rheolydd calon

Diffibrilwyr Diffibriliwr Cardiaidd (ICDs)

Dyfeisiau therapi ailgydamseru cardiaidd (CRTDs) Recordyddion dolen mewnblanadwy

Dyfeisiau cymorth fentriglaidd (VADs): Dyfeisiau cymorth fentriglaidd chwith (ADV), dyfeisiau cymorth fentriglaidd dde (RVADs), neu ddyfeisiau cymorth deufenriglaidd BiVADs)

Pympiau cyffuriau mewnblanadwy gan gynnwys pympiau mewnweiniol

Niwrosymbylwyr (gan gynnwys ar gyfer poen a Symbyliad Trydanol Gweithredol)
Symbylwyr twf esgyrn

Siyntau hydroceffalws y gellir eu rhaglennu

Hoelion gosod

Unrhyw fewnblaniad arall sy'n defnyddio batri neu sy'n cynnwys pwysedd

Mewnblaniadau ymbelydrol

Triniaeth radiofferylliaeth (drwy bigiad)

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2022**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i
coroners@justice.gov.uk